**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

31 Hydref 2019

Annwyl Rebecca

**Cod asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth**

Gwnaethom drafod Rheoliadau Rheoliadau Traffordd yr M4 (Man Casglu Tollau Rogiet, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2010 (Dirymu) 2019 yn ein cyfarfod ar 21 Hydref 2019. Gwnaethom nodi dau bwynt o ran rhinweddau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3, ac roedd y cyntaf ohonynt yn nodi nad oedd yn glir pam na luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Yn ei hymateb i'r pwynt hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

> "Nid yw Asesiadau Effaith Rheoleiddiol wedi eu cwblhau yn y gorffennol wrth i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 17 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 sy'n gosod terfynau cyflymder ar ddarnau o ffyrdd arbennig. Y rheswm am hynny yw bod rheoliadau o'r fath wedi eu gwneud, ar y cyfan, am resymau diogelwch ar y briffordd ac nad ydynt yn cael unrhyw effaith ar gostau busnes (…)
>
> O ran Cod Asesiadau Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn benodol, yr eithriad perthnasol i'r gofyniad i gynnal asesiad yw bod y rheoliadau o dan sylw yn gwneud diwygiad technegol neu ffeithiol i ddiweddaru rheoliadau nad ydynt yn cael unrhyw effaith sylweddol ar bolisi."

Wrth nodi'r ymateb hwn, daethom yn ymwybodol o'r ffaith bod adran 76(3)(a) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn darparu bod yn rhaid parhau i adolygu'r Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gyflwynwyd ym mis Hydref 2009.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Byddem yn ddiolchgar pe byddech yn cadarnhau a yw'r Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i adolygu ac, os na, pryd y disgwylir i'r adolygiad hwn ddigwydd.

Yn gywir



**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.